# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 29 Ebrill 2024

Amser: 13.00 - 15.52

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13869

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Sarah Murphy AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Luke Fletcher AS (yn lle Adam Price AS) |
| Tystion: | Jane Hutt AS, Trefnydd a'r Prif Chwip<br>Anna Hind, Llywodraeth Cymru<br>Will Whiteley, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Adam Price AS. Luke Fletcher AS oedd yn dirprwyo ar ei ran.

## 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 3, 10, 11 a 12.

Derbyniwyd y cynnig.

## 3 Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Sesiwn friffio

Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol).

## 4 Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Sesiwn dystiolaeth

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jane Hutt AS, y Trefnydd a'r Prif Chwip.

## 5 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 5.1 SL(6)482 – Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol a Chymwysterau Athrawon Addysg Bellach) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 6 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 6.1 SL(6)479 – Rheoliadau Archwilwyr Meddygol (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 6.2 SL(6)480 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 6.3 SL(6)481 – Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 7 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 7.1 SL(6)477 – Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 8 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 8.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd Grwpiau Rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg mewn perthynas â'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach.

### 8.2 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygiadau Amrywiol) 2024

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

### 8.3 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2024

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

### 8.4 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

## 9 Papurau i'w nodi

### 9.1 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa’r Cabinet: Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa’r Cabinet, a chytunodd i ymateb maes o law.

### 9.2 Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Diweddariad ar gynigion i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd cyflenwi weips gwlyb sy'n cynnwys plastigau a fêps untro

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

### 9.3 Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Diweddariad ar ddatblygu Cynllun Dychwelyd Ernes

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

## 10 Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddarparwyd gan Jane Hutt AS, y Trefnydd a'r Prif Chwip, a chytunodd ar faterion allweddol i'w cynnwys yn ei adroddiad, a fyddai'n cael ei drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio): Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd i drafod drafft diwygiedig mewn cyfarfod yn y dyfodol.